Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board

# #DoethiDanauGwyllt: Cynllun Cyfathrebu Aml-asiantaethol Cymru Gyfan Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru

## Cynnwys

#DoethiDanauGwyllt: Cynllun Cyfathrebu Aml-asiantaethol Cymru Gyfan Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ..... 1

Cyflwyniad ..... 3

Ein Partneriaid ..... 3

Yr Ymgyrch Doeth i Danau Gwyllt ..... 4

Ein Dull o Gyfathrebu ..... 5

Ein Hymrwymiadau ..... 5

Ein Nodau ..... 6

Ein Cynulleidfaoedd ..... 8

Ein Cynllun ..... 9

Ein negeseuon allweddol ..... 10

Ein deunyddiau ..... 13

Datganiad i'r Wasg ar gyfer Lansiad #DoethiDanauGwyllt ..... 13

#DoethiDanauGwyllt – Negeseuon Cyfryngau Cymdeithasol Dwyieithog ..... 16

# Cyflwyniad

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn esblygiad o’r Bwrdd Strategol i Leihau Tanau Bwriadol, ac fe’i sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2023 gyda’r nod o ddylunio, o ddatblygu ac o weithredu dull newydd o fynd i’r afael ag effaith tanau gwyllt ledled Cymru.

Lluniwyd Siarter Tanau Gwyllt Cymru o amgylch tair thema allweddol sy’n galluogi’r Bwrdd i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sydd angen y mwyaf o sylw a’r rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar eu dealltwriaeth o danau gwyllt; o’i llunio bydd asiantaethau'n ystyried sut maen nhw’n mynd ati i atal tanau gwyllt ac i ddiogelu eu cymunedau a’u hamgylcheddau, a thrwy hynny bydd dull cadarn a chyson o reoli risg tanau gwyllt yn cael ei sefydlu ledled Cymru.

## Ein Partneriaid

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent, Heddlu Gogledd Cymru, Y Swyddfa Dywydd, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffermwyr Ifanc Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Eryri, Cadwch Gymru'n Daclus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, CLILC, CrimeStoppers.

# Yr Ymgyrch Doeth i Danau Gwyllt

Fel rhan o Siarter Tanau Gwyllt Cymru, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a'i bartneriaid yn ymroi i siarad ag un llais pan fyddant yn rhannu negeseuon, yn gwella ymwybyddiaeth ac yn addysgu ynghylch tanau gwyllt ledled Cymru.

Dan arweiniad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, bu cynrychiolwyr cyfathrebu'n gweithio i werthuso llwyddiannau'r Bwrdd Strategol i Leihau Tanau Bwriadol ym meysydd cyfathrebu ac ymgysylltu ac yn ystyried mewnbwn gan asiantaethau partner a chynrychiolwyr cymunedol, ac yna aethant ati i ddatblygu'r Ymgyrch Doeth i Danau Gwyllt.

Mae Doeth i Danau Gwyllt yn un o ddwy ymgyrch gan Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru, a'i phrif amcan yw datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r broblem tanau gwyllt sydd yng Nghymru, gan gynnwys y ffactorau hynny sy'n cyfrannu at danau gwyllt, eu heffeithiau posibl, y dulliau ymyrryd sy'n bodoli ar hyn o bryd, a'r newidiadau bychain hynny y gallwn eu gwneud i'n hymddygiad a'n gweithredoedd er mwyn gwarchod cymunedau ac amgylchedd Cymru.

Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board

# Ein Dull o Gyfathrebu

Y ddogfen hon sy'n sefydlu'r dull cyfathrebu ar gyfer ymgyrch Doeth i Danau Gwyllt Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, gan gynnwys nodi pwy yw'r gynulleidfa darged a beth yw'r negeseuon allweddol, yn ôl yr hyn a gytunwyd rhwng pob asiantaeth sy'n rhan o'r ymgyrch aml-asiantaethol.

Y gobaith yw y bydd y negeseuon cyfathrebu yn rhoi pwyslais ar addysg ragweithiol a chydweithredol, ar weithgareddau dargyfeirio a gorfodi, a'r hyn y gall rhanddeiliaid ar draws cymunedau ei wneud er mwyn cyfyngu ar achosion o danau bwriadol a thanau damweiniol.

Bydd y dull cyfathrebu yn cael ei gydlynu a'i fonitro gan Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru, ei grwpiau ymarferwyr cysylltiedig a, phan fo angen, yng nghynadleddau ffôn Dawns Glaw wythnosol yr ochr weithredol.

## Ein Hymrwymiadau

Mae Tîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi creu tudalen ymgyrchoedd ar wefan y Gwasanaeth #DoethiDanauGwyllt, ac yno cewch afael ar yr holl ddeunyddiau a ddatblygwyd i gefnogi'r ymgyrch Doeth i Danau Gwyllt, gan gynnwys negeseuon cyfryngau cymdeithasol dwyieithog wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw yn ogystal â graffeg i'w lawrlwytho ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd Tîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn rhan o'r gwahanol grwpiau sy'n gysylltiedig â Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, a byddant yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r holl asiantaethau am ddatblygiadau nodedig, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wneir i'r dull cyfathrebu a chyfryngau.

Gofynnir i bob asiantaeth anfon copïau o'u holl weithgareddau cyfathrebu rhagweithiol i Ddesg y Wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (pressofficer@mawwfire.gov.uk) er mwyn iddynt gydlynu log o weithgareddau.

Gofynnwn hefyd i bob asiantaeth sicrhau eu bod yn hysbysu Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru os cânt unrhyw gynnig i wneud cyfweliad i'r wasg. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â Desg y Wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy e-bostio pressofficer@mawwfire.gov.uk.

Bydd cynigion i gyfathrebu ac i ymddangos yn y cyfryngau lleol yn cael eu cydlynu gan y partneriaid sydd ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru, a hynny er mwyn sicrhau bod materion lleol yn cael sylw priodol ac yn cael eu hyrwyddo yn ôl yr angen, yn ogystal ag i sicrhau bod unrhyw negeseuon yn cyd-fynd ag amcanion, nodau a dulliau cyfathrebu ehangach y Bwrdd.

Anogir pob asiantaeth i rannu unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo a grëwyd mewn paratoad ar gyfer gweithgareddau Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, fel sydd wedi'i amlinellu yn y Siarter Tanau Gwyllt. Unwaith eto, bydd y deunydd hwn yn cael ei rannu ar dudalen we yr ymgyrch a bydd yn cael ei gydlynu gan Dîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## Ein Nodau

Bydd gweithgarwch cyfathrebu yn cael ei wneud i hyrwyddo pob agwedd ar yr ymgyrch yn ôl yr angen, gan gynnwys:

- Cefnogi'r holl fentrau a ddatblygir i ymgysylltu â'r rhai sy'n cynnau tanau er mwyn eu hatal rhag gwneud – gan gynnwys cefnogi gweithgareddau dargyfeiriol a ddatblygir er mwyn ymgysylltu ag unigolion sydd wedi'u dadrithio gyda'r nod o chwalu'r rhwystrau sydd rhyngddynt a'r gwasanaethau brys.
- Cefnogi timau cyswllt ysgolion mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid – gan gynnwys gweithgareddau cadetiaid tân.
- Cefnogi patrolau amlwg mewn ardaloedd lle mae tanau'n cael eu cynnal yn aml.
- Cefnogi ymgysylltiad â grwpiau gwirfoddol a'r rhai sy'n defnyddio cefn gwlad er mwyn eu haddysgu am ganlyniadau cynnau tanau, boed ar fwriad neu ar ddamwain, a'u cynnwys yn y gwaith o gasglu gwybodaeth.

- Cefnogi ymgysylltiad â thirfeddianwyr a’r rhai sy’n amaethu ar dir comin er mwyn amlygu gwerth cydweithrediad â Bwrdd Tân Gwyllt Cymru a'i bartneriaid er mwyn cynnal a rheoli tir yn gyfrifol a lleihau effaith tanau gwyllt. Bydd hyn hefyd yn ystyried y peryglon sy'n gysylltiedig â chynnau tanau ar dir agored eang ac yn ailadrodd gofynion Llywodraeth Cymru ar reoliadau llosgi glaswellt a rhedyn.
- Cefnogi ymgysylltiad ag asiantaethau twristiaeth ledled Cymru er mwyn annog pobl i fwynhau ein cefn gwlad mewn ffordd gyfrifol ac i leihau achosion o gynnau tanau damweiniol.
- Cefnogi criwiau’r ochr weithredol i addysgu aelodau o'r gymuned am y technegau diffodd tân mwyaf priodol i’w defnyddio ym mhob digwyddiad - hyd yn oed pan fo hynny’n golygu sefyll yn ôl a chaniatáu i'r tân losgi – er mwyn lleihau achosion o aildanio.
- Atgyfnerthu'r effeithiau y mae tanau yn eu cael ar ein bywyd gwyllt a'u cynefinoedd trwy rannu delweddau o effeithiau tân a lluniau drôn.

# Ein Cynulleidfaoedd

- Tirfeddianwyr, Ffermwyr, Rheolwyr Tir a Chominwyr – y ffenestr amser pan ganiateir llosgi dan reolaeth, cydweithio ag asiantaethau priodol i gynnal ac i reoli tir yn gyfrifol.
- Pobl ifanc – negeseuon diogelwch yr haf a negeseuon am danau bwriadol.
- Grwpiau cerdded / defnyddwyr cefn gwlad – negeseuon diogelwch yr haf ac adrodd am unrhyw bryderon.
- Twristiaid / y rhai sy'n mwynhau cefn gwlad – negeseuon diogelwch yr haf ac annog unigolion i barchu ein cefn gwlad.
- Ymwybyddiaeth gyffredinol y cyhoedd – damweiniol / bwriadol / tanau bwriadol yn drosedd / ein dull o ddiffodd tanau / cyfrannu at amddiffyn eich cymunedau, eu trigolion a'u hiechyd, a'r amgylchedd ehangach.
- RSPB / RSPCA / Sefydliadau Bywyd Gwyllt – cael mwy o lais o ran strategaethau atal a pharchu eich cefn gwlad a'i fywyd gwyllt.
- Heddlu – tanau bwriadol yn drosedd/erlyniadau / hysbysiad gwasgaru o fewn ardaloedd lle mae llawer o danau yn cael eu cynnau.

# Ein Cynllun

- Datganiadau ar y Cyd i'r Wasg – Un i'w rhannu ar y dechrau ac yna yn ymatebol yn ôl yr angen. Er mwyn sicrhau cysondeb o ran y neges a'r ystadegau a rennir, danfonwch gopi o’r holl ddatganiadau a wneir i’r wasg i pressofficer@mawwfire.gov.uk er mwyn iddynt eu hychwanegu at dudalen we yr ymgyrch a’u rhannu gyda'r grŵp er gwybodaeth.
- Astudiaethau Achos – Os bydd sefydliadau unigol yn gweld cyfle i dynnu sylw at astudiaeth achos benodol yn eu hardal, ewch ati i wneud hynny os gwelwch yn dda. Cofiwch ei anfon i ddesg y wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd, er mwyn iddynt ei rannu ar draws Grŵp Tanau Gwyllt Cymru.
- Hysbysebion radio – Mae'r grŵp yn annog y defnydd o hysbysebion Radio i hyrwyddo gwaith Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a'i negeseuon allweddol. Oherwydd natur darllediadau radio, gellir trefnu hysbysebion radio ar lefel leol gan ddefnyddio'r negeseuon sydd yn y ddogfen hon.
- Negeseuon allweddol / negeseuon cyfryngau cymdeithasol – Mae casgliad o negeseuon dwyieithog a grëwyd ac a awdurdodwyd ymlaen llaw i’w cael ar dudalen yr ymgyrch sydd ar wefan Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru #DoethiDanauGwyllt yn ogystal â graffeg i’w lawrlwytho ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

# Ein negeseuon allweddol

- Trwy weithio mewn partneriaeth sy'n esblygu, byddwn yn dod â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Brys, Sefydliadau Cyhoeddus a Phreifat, Tirfeddianwyr a Defnyddwyr Tir at ei gilydd i reoli ac i ddatblygu ein tirwedd.
- Byddwn yn cyfrannu at reoli ein tirwedd er mwyn diogelu bywyd gwyllt, coedwigaeth a bywoliaethau; i wella lles, iechyd ac amwynder, i hwyluso cynhyrchu bwyd cynaliadwy, ac i greu ymdeimlad o le a pherchnogaeth gymunedol.
- Byddwn yn gweithredu ystod amrywiol o dechnegau rheoli er mwyn lleihau effaith tanau gwyllt ar ein cymunedau ac ar dirwedd Cymru.
- Mae tanau gwyllt yn gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o gefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt bob blwyddyn.
- Bydd Partneriaid y Bwrdd Tanau Gwyllt yn ymrwymo i weithio gyda'n cymunedau er mwyn creu tirwedd sy'n iachach ac yn fwy gwydn, a hynny trwy wella bioamrywiaeth ar gyfer ein dyfodol.
- Nod Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, gyda'r dull aml-asiantaethol o ymdrin ag ymwybyddiaeth tanau gwyllt, yw ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, gan gydweithio er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli tanau gwyllt, a chan wrando a rhannu datrysiadau ymarferol ar gyfer Cymru.
- Drwy ddefnyddio dull cydweithredol, mae'r asiantaethau sy'n rhan o Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio cynnig gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i gyfyngu ar nifer y tanau gwyllt, a thrwy hynny leihau'r difrod y gallant ei achosi i'n hamgylchedd.
- Mae pob asiantaeth ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru eisiau deall a chydnabod eu heffeithiau ei gilydd a chydweithio i ddatblygu ymyriadau cynnar effeithiol ar gyfer tanau gwyllt yng Nghymru.
- Er mwyn deall a chydnabod eu heffeithiau ei gilydd ac er mwyn datblygu ystod o ymyriadau cynnar ar gyfer tanau gwyllt yng Nghymru, mae'n bwysig i bartneriaid gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol.

- Os ydym eisiau gweithredu ag un llais wrth anfon negeseuon, wrth wella ymwybyddiaeth ac wrth addysgu am danau gwyllt ledled Cymru, mae'n hanfodol fod yr holl randdeiliaid perthnasol yn dod ynghyd ac yn cydweithio.
- Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth er mwyn meithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer rheoli risg tanau gwyllt.
- Er mwyn rheoli nifer, graddfa, difrifoldeb ac effaith achosion tanau gwyllt, mae angen dull cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar atal, ar ganfod yn gynnar, ac ar ymateb yn gyflym.
- Er mwyn addasu i ddatblygiadau natur a hinsawdd, adfer cysylltiadau â mannau gwyrdd a chymunedau, yn ogystal â chyfyngu ar losgi llystyfiant heb reolaeth, mae'n bwysig defnyddio dull amlweddog sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, rheoli tir, ac arferion sy'n cefnogi'r hinsawdd.
- Er mwyn cadw’r aer yn lanach ac i ddiogelu adnoddau naturiol a threftadaeth wrth leihau'r risg o danau gwyllt, mae angen defnyddio dull cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau, annog y defnydd cynaliadwy o dir, a diogelu adnoddau naturiol a diwylliannol.
- Mae diogelu ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd yn hanfodol ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd ac er mwyn annog secwestriad carbon.
- Mae Rheoli Risg Tanau Gwyllt ar lefel Rheoli Tirwedd yn golygu mabwysiadu dull cyfannol o reoli'r tir ac o leihau'r risg o danau gwyllt.
- Mae tanau gwyllt yn peryglu bywydau. Bydd yn cymryd mwy o amser i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymateb i argyfyngau sy’n peryglu bywydau, fel tanau mewn tai neu wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, os ydynt eisoes yn brysur yn mynd i'r afael â thân gwyllt.
- Trwy sefydlu rhwydwaith cydweithredol, nodi bylchau mewn gwybodaeth ac anghenion hyfforddi, datblygu deunyddiau hyfforddi priodol, a darparu hyfforddiant trwy amrywiol ddulliau, gall rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i gynyddu eu gallu ac i wella arferion rheoli risg tanau gwyllt yng Nghymru.

- Bydd rhannu gwybodaeth ac arferion gorau hefyd yn helpu i gryfhau'r cydweithrediad, yn adeiladu ymddiriedaeth, ac yn annog un weledigaeth rhwng pawb ar gyfer rheoli risg tanau gwyllt.
- Trwy greu Map Risg Tân amlswyddogaethol a phecyn cymorth ar gyfer technegau ataliol o reoli tir, gall rhanddeiliaid nodi ardaloedd lle mae risg uchel o danau gwyllt a gweithredu strategaethau rheoli tir sydd wedi'u targedu i leihau'r risg hon. Gellir defnyddio'r map a'r pecyn cymorth wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli tir, wrth dargedu adnoddau, ac wrth wella ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mesurau ataliol i leihau effaith tanau gwyllt yng Nghymru.
- Trwy rannu adnoddau a gweithredu mesurau atal, gall rhanddeiliaid ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru leihau nifer a difrifoldeb tanau gwyllt yng Nghymru.
- Gall defnyddio dull cydweithredol sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid ei gwneud yn haws i adnabod ardaloedd o risg uchel ac i ddatblygu strategaethau effeithiol i atal tanau gwyllt.
- Gellir defnyddio systemau rhybudd cynnar i ymateb yn gyflym pan fo perygl o danau gwyllt, a gall ymgyrchoedd gwella ymwybyddiaeth helpu i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd mesurau ataliol.
- Mae tanau gwyllt yn beryglus ac yn anwadal; gallant ledaenu y tu hwnt i bob rheolaeth yn gyflym iawn.
- Gall mwg tân gwyllt effeithio ar eich anadlu, gall beri llid ar eich croen a'ch llygaid, ac achosi poenau yn y frest.
- Gall tanau gwyllt wneud difrod difrifol i'n cefn gwlad a'n hamgylchedd.
- Mae tanau gwyllt yn dinistrio bywyd gwyllt a da byw.
- Mae tanau gwyllt yn costio miliynau o bunnoedd i economi Cymru bob blwyddyn.
- Mae mwg o danau gwyllt yn niweidiol i'ch iechyd; os oes tân gwyllt yn eich ardal chi, arhoswch dan do a chadwch y drysau a'r ffenestri ar gau.

# Ein deunyddiau

## Datganiad i'r Wasg ar gyfer Lansiad #DoethiDanauGwyllt

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn eich annog i fod yn ymwybodol o beryglon tanau gwyllt dros dymhorau'r gwanwyn a'r haf #doethidanaugwyllt.

Gyda'r tymhorau ar dro, a'r addewid o dywydd braf ar y gorwel, dyma adeg dda i fwynhau gweithgareddau yn yr awyr iach, i drefnu gwyliau, i wersylla gyda'r teulu, ac i fwynhau eich ardal leol.

Er hyn, daw'r Gwanwyn a'r Haf â'u peryglon hefyd, oni fyddwch chi'n dilyn canllawiau diogelwch ymarferol a chywir sy'n addas i'r adeg hon o'r flwyddyn. Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog pawb i fod yn Ddoeth i Danau Gwyllt, a thrwy wneud rhai paratoadau syml a chymryd ychydig mwy o ofal gallwn barhau i fwynhau ein cefn gwlad hardd ac i warchod ein cymunedau rhag effeithiau dinistriol tanau gwyllt.

Yr adeg hon o'r flwyddyn, gall glaswelltir a mynyddoedd fod yn sych iawn, sy'n golygu y gall tân sydd wedi'i gynnau y tu allan ledaenu yn gyflym iawn, gan ddinistrio popeth sydd ar ei lwybr.

Yn 2024, ymatebodd gwasanaethau tân ledled Cymru i 977 achos o danau glaswellt – roedd hyn yn ostyngiad o 47% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda nifer y tanau glaswellt bwriadol wedi gostwng 576 (44%) i 713.

Mae'r Bwrdd Tanau Gwyllt yn awyddus i weithio gyda'n cymunedau er mwyn creu tirwedd sy'n iachach ac yn fwy gwydn, a hynny trwy wella bioamrywiaeth ar gyfer ein dyfodol.

Nod ein hymgyrch #DoethiDanauGwyllt yw addysgu unigolion am yr arferion gorau o ran osgoi ac atal tanau gwyllt yng Nghymru.

Trwy wella ymwybyddiaeth o beryglon posibl tanau gwyllt, bydd yr ymgyrch yn annog pobl i fod yn fwy gwyliadwrus pan fyddant allan yn yr awyr iach ac i fod yn weithgar wrth adrodd am weithgareddau amheus a allai arwain at danau.

Gellir atal llawer iawn o danau gwyllt, ac mae ambell i beth bach y gallwn wneud er mwyn cyfyngu ar ba mor aml y maent yn digwydd a chyfyngu ar eu heffaith.

**Dywedodd Andrew Wright, Cadeirydd newydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ac Uwch Gynghorydd Arbenigol - Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru:**

"Mae ein hymgyrch Doeth i Danau Gwyllt wedi'i hadeiladu ar sylfaen o wybodaeth a phrofiad a gasglwyd gan bartneriaid ar y Bwrdd wrth iddynt ddelio ag effaith tanau gwyllt ledled Cymru dros y degawd diwethaf.

“Rydym yn annog pob aelod o'n cymunedau i barchu cefn gwlad ac i gyfrannu at warchod ein hamgylchedd a diogelu ein cymunedau.

“Mae'n hanfodol bwysig ein bod i gyd yn parhau i gydweithio i greu tirwedd sy’n iachach, yn wytnach, ac â mwyfwy o fioamrywiaeth yma yng Nghymru, gan wneud popeth allwn ni i ddiogelu'r adnodd gwerthfawr hwn ar gyfer y dyfodol.

“Er bod damweiniau'n digwydd, mae modd eu hosgoi hefyd, ac mae ein hymgyrch Doeth i Danau Gwyllt yn canolbwyntio ar addysgu pob un ohonom am rai o’r pethau bychain y gallwn eu gwneud er mwyn sicrhau nad ydym yn cynnau tân glaswellt ar ddamwain.

“Rydyn ni eisiau gweithio gyda’n cymunedau, ffermwyr, a pherchnogion tir er mwyn rhannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r effaith mae tanau bwriadol a damweiniol yn ei chael ar ein cymunedau. Rydyn ni’n deall bod llosgi dan reolaeth yn gallu cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan greu bioamrywiaeth ac ecosystem gynaliadwy, ac rydyn ni ar gael i roi cyngor am ddim ar sut i wneud hyn yn ddiogel.”

“Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i ategu ein neges: er y gall damweiniau ddigwydd, mae rhai yn ein cymunedau ni’n mynd ati’n fwriadol i roi ein cefn gwlad ar dân. Mae hyn yn drosedd, un sy’n arwain at erlyniad, ond mae hefyd yn rhoi pwysau diangen ar ein gwasanaethau rheng flaen ac yn peryglu ein cymunedau.”

Trwy weithio gyda'n cymunedau i rannu gwybodaeth, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio gwella dealltwriaeth o'r hyn y gall y Gwasanaeth ei wneud i atal tanau damweiniol rhag digwydd ac i gyfyngu ar y difrod y gallant ei wneud i'r amgylchedd.

Gallwch ddysgu mwy am #DoethiDanauGwyllt drwy fynd i #DoethiDanauGwyllt Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â chael awgrymiadau diogelwch syml a negeseuon diogelwch yr ymgyrch i'w lawrlwytho a’u defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun. Gyda'n gilydd, gallwn atal tanau glaswellt ac amddiffyn ein cefn gwlad a Chymru.

Cofiwch - os ydych allan yng nghefn gwlad ac yn gweld unrhyw un yn ymddwyn yn amheus, ffoniwch CrimeStoppers yn ddienw trwy alw 0800 555 111, neu ffoniwch 101. Os yw’n argyfwng, ffoniwch 999 bob tro.

**Nodiadau i’r Golygydd:**

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn ddull aml-asiantaethol o wella ein dealltwriaeth a’n rheolaeth o’r perygl y mae tanau gwyllt yn ei beri i amgylchedd a chymunedau Cymru.

Caiff ei gyflwyno trwy Siarter Tanau Gwyllt newydd, a'i nod yw adeiladu ar y sylfaen o wybodaeth a phrofiad a enillwyd dros y degawd diwethaf, a hynny gan ystyried perygl hollbresennol newid hinsawdd yn ogystal â chydnabod gwerth annog cymunedau ac unigolion i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu'r ardaloedd lle maent yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw.

Amcan y bwrdd yw ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, cydweithio er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli tanau gwyllt, ac i wrando a rhannu datrysiadau ymarferol ar gyfer Cymru. Trwy ddefnyddio'r dull cydweithredol hwn, mae'r asiantaethau sy'n rhan o Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio cynnig gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i gyfyngu ar nifer y tanau gwyllt, a thrwy hynny leihau'r difrod y gallant ei achosi i'n hamgylchedd.

Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board

# #DoethiDanauGwyllt – Negeseuon Cyfryngau Cymdeithasol Dwyieithog

**Diogelwch yr Haf / Diogelu cefn gwlad a Chymru.**

| ENW'R DDELWEDD | WELSH | ENGLISH |
| --- | --- | --- |
| Summer Safety_1 | Bob blwyddyn, mae tanau yn gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o ardaloedd cefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt. Gellir atal y rhan fwyaf o'r tanau hyn, a achosir gan ein hymddygiad ni. Helpwch i atal tanau glaswellt. #doethidanaugwyllt | Every year fire is responsible for the destruction of thousands of hectares of countryside, open space, and wildlife habitats. Many of these fires are preventable and caused by our behaviour. Help stop wildfires. #wildfirewise |
| Summer Safety_2 | Helpwch i ddiogelu ein cefn gwlad a'n gwlad. Peidiwch â chynnau tanau mewn mannau cyhoeddus, a dim ond lle mae arwyddion yn dweud y gallwch wneud hynny y dylech gynnau barbeciw. #doethidanaugwyllt | Help protect our countryside and our country. Do not light fires in public spaces and only have BBQs where signs say you can. #wildfirewise |
| Summer Safety_3 | Byddwch yn ymwybodol o sut rydych chi'n cael gwared ar wastraff yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir. Gall poteli gwydr a | Be mindful of how you dispose of waste in the countryside and the coast. Discarded glass bottles and |

| | | |
|---|---|---|
| | sigaréts sy'n cael eu taflu achosi tanau. Defnyddiwch y biniau a ddarperir bob amser.<br><br>#doethidanaugwyllt | cigarettes can cause fires. Always use bins that are provided.<br><br>#wildfirewise |
| Summer Safety_4 | Rhowch wybod am unrhyw weithgarwch amheus trwy ffonio 101, neu trwy gysylltu â Crimestoppers yn ddienw ar 0800 555 111. Helpwch i atal tanau glaswellt.<br><br>#doethidanaugwyllt | Report any suspicious activity by calling 101<br>or CrimeStoppers anonymously on 0800 555 111. Help stop wildfires.<br><br>#wildfirewise |
| Summer Safety_5 | Peidiwch byth â chynnau tanau gwersyll. Dim ond lle mae arwyddion yn nodi bod hawl i ddefnyddio barbeciw y dylech wneud hynny, a pheidiwch byth â'i adael heb neb i gadw golwg arno. Gwnewch yn siŵr ei fod wedi diffodd yn llwyr cyn ei adael.<br><br>#doethidanaugwyllt | Do not light campfires. Only use a BBQ where signs say you can and never leave it unattended, ensure that they are fully extinguished before you leave.<br><br>#wildfirewise |
| Summer Safety_6 | Sicrhewch fod pob barbeciw tafladwy yn cael ei daflu'n briodol. Maen nhw'n gallu achosi difrod a/neu anaf os ydyn nhw'n cael eu gadael i fudlosgi. Mae'n arbennig o bwysig peidio â'u claddu yn y tywod. Byddwch yn ymwybodol o | Ensure all disposable BBQs are discarded appropriately, they can cause damage and/or injury if left to smoulder. It is particularly important not bury them in the sand. Be mindful of young children and pets that may |

| | | |
|---|---|---|
| | blant ifanc ac anifeiliaid anwes a allai ddod ar eu traws. Defnyddiwch finiau dynodedig lle maen nhw ar gael.<br><br>#doethidanaugwyllt | come across them. Use designated bins where available.<br><br>#wildfirewise |
| Summer Safety_7 | Cliriwch boteli, gwydrau ac unrhyw wydr sydd wedi torri, er mwyn eu hatal rhag chwyddo effaith yr haul, a chynnau tân. Helpwch i atal tanau glaswellt.<br><br>#doethidanaugwyllt | Clear away bottles, glasses, and any broken glass to avoid them magnifying the sun and starting a fire. Help stop wildfires. #wildfirewise |
| Summer Safety_8 | Sicrhewch eich bod yn gwaredu deunyddiau ysmygu, fel sigaréts, yn ddiogel. Helpwch i atal tanau glaswellt.<br><br>#doethidanaugwyllt | Dispose of smoking materials such as cigarettes safely. Help stop wildfires. #wildfirewise |
| Summer Safety_9 | Peidiwch â thaflu sigaréts, matsis na sbwriel allan o'r ffenestr. Gallan nhw achosi tanau. Helpwch i atal tanau glaswellt.<br><br>#doethidanaugwyllt | Don’t throw cigarettes, matches or litter out of the window. They can cause a fire. Help stop wildfires.<br><br>#wildfirewise |
| Summer Safety_10 | Eglurwch wrth blant beryglon chwarae gyda thanau a chynnau tanau. Helpwch i atal tanau glaswellt. | Explain to children the dangers of playing with and lighting fires. Help stop wildfires.<br><br>#wildfirewise |

| | | |
|---|---|---|
| | #doethidanaugwyllt | |
| Summer Safety_11 | Os ydych chi'n gweld tân gwyllt, ewch i le diogel, ffoniwch 999 a gofynnwch am y Gwasanaeth Tân. Helpwch i atal tanau glaswellt.<br><br>#doethidanaugwyllt | If you see a wildfire, get to safe place, call 999 and ask for the Fire Service. Help stop wildfires.<br><br>#wildfirewise |
| Summer Safety_12 | Cofiwch!<br><br>Daeth y cyfnod llosgi grug a glaswellt gyda Chynllun Llosgi i ben ar 15 Mawrth (31 Mawrth yn ardaloedd yr ucheldir). Bydd unrhyw un sy'n cael ei ganfod yn llosgi y tu allan i Gyfnod y Cynllun Llosgi (Tachwedd i Fawrth) yn cael ei erlyn a gallai hyn effeithio ar eich taliadau fferm sengl gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Helpwch i atal tanau glaswellt #doethamdân | Don't Forget!<br><br>Heather and grass burning with a Burn Plan ended on 15th March (31st March in Upland areas). Anyone found burning outside of the Burn Plan Period (Nov to March) will be prosecuted and it could affect your single farm payments from Welsh Gov. Help stop wildfires #wildfirewise |
| Summer Safety_13 | Bydd llosgi grug a glaswellt y tu allan i Gyfnod y Cynllun Llosgi (Tachwedd i Fawrth) yn arwain at erlyniad a gallai hyn effeithio ar eich taliadau fferm sengl gan Lywodraeth Cymru. Helpwch i | Burning heather and grass outside of the Burn Plan Period (Nov to March) will result in prosecution and could affect your single farm payments from Welsh Gov. #wildfirewise |

| | | |
|---|---|---|
| | atal tanau glaswellt<br>#doethamdân | |

Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board

**Mae cynnau tân yn drosedd / Gweithio gyda'n gilydd i losgi'n gyfrifol.**

| ENW'R DDELWEDD | WELSH | ENGLISH |
|---|---|---|
| Fire Setting_1 | Rydym ni'n deall fod llosgi'n gyfrifol yn ffordd effeithiol o reoli tir a'i fod yn helpu i atal tanau gwyllt yn yr hirdymor. Rydym yn annog tirfeddianwyr i gydweithio â'u Hawdurdod Tân ac Achub lleol er mwyn llosgi mewn ffordd sy'n gyfrifol #doethidanaugwyllt | We recognise that burning responsibly is an effective land management tool and assists in reducing wildfires long term. We encourage landowners to work with their local Fire and Rescue Service to burn responsibly #wildfirewise |
| Fire Setting_2 | Gall cynnau tân fod yn drosedd. Rydym yn annog tirfeddianwyr i gydweithio â'u Hawdurdod Tân ac Achub lleol er mwyn llosgi mewn ffordd sy'n gyfrifol. Helpwch i atal tanau gwyllt. #doethidanaugwyllt | Starting a deliberate fire can be a a criminal offence. We encourage landowners to work with their local Fire and Rescue Service to burn responsibly. Help stop wildfires. #wildfirewise |
| Fire Setting_3 | Mae llosgi dan reolaeth yn ddull traddodiadol a chyfreithlon o reoli tir i berchnogion tir adnewyddu neu ailgyflenwi porfa da byw a chreu amrywiaeth o gynefinoedd. Dim ond os ydynt yn ymddangos allan o reolaeth neu heb oruchwyliaeth y dylech roi gwybod am danau dan yr amgylchiadau hyn. | Controlled burning is a traditional and lawful method of land management for landowners to refresh or replenish livestock grazing and create a variety of habitats. Only report fires in these circumstances if they appear out of control or unsupervised. #wildfirewise |

| | | |
|---|---|---|
| | #doethidanaugwyllt | |
| Fire Setting_4 | Gallech gael record droseddol o ganlyniad i gynnau tân bwriadol. Helpwch i atal tanau bwriadol.<br><br>#doethidanaugwyllt | You could end up with a criminal record as a result of starting a deliberate fire. Help stop wildfires.<br><br>#wildfirewise |
| Fire Setting_5 | Mae'n anodd cael gwared â record droseddol – PEIDIWCH â chynnau tanau bwriadol. Helpwch i atal tanau bwriadol.<br><br>#doethidanaugwyllt | A criminal record is hard to shake – DON'T start deliberate fires. Help stop wildfires.<br><br>#wildfirewise |
| Fire Setting_6 | Os oes gennych unrhyw wybodaeth am danau bwriadol, ffoniwch Crimestoppers yn ddienw ar 0800 555 111. Mewn argyfwng ffoniwch 999 bob amser. Helpwch i atal tanau bwriadol.<br><br>#doethidanaugwyllt | If you have any information on deliberate fires call CrimeStoppers anonymously on 0800 555 111. In an emergency always call 999. Help stop deliberate fires.<br><br>#wildfirewise |

**Negeseuon Penodol am y Gwasanaeth Tân**

| ENW'R DDELWEDD | CYMRAEG | SAESNEG |
|---|---|---|
| Fire Service_1 | Mae tanau bwriadol yn dreth aruthrol ar ein hadnoddau. Helpwch i atal tanau bwriadol.<br><br>#doethidanaugwyllt | Deliberate fires are a huge drain on our resources. Help stop deliberate fires.<br><br>#wildfirewise |
| Fire Service_2 | Gall tanau bwriadol oedi ein hymateb i ddigwyddiadau difrifol eraill. Helpwch i atal tanau bwriadol.<br><br>#doethidanaugwyllt | Deliberate fires can delay our attendance at other serious incidents. Help stop deliberate fires.<br><br>#wildfirewise |
| Fire Service_3 | Gallai ymateb i dân glaswellt olygu na allwn ymateb i argyfwng arall. Rydym yn annog tirfeddianwyr i gydweithio â'u Hawdurdod Tân ac Achub lleol er mwyn llosgi mewn ffordd sy'n gyfrifol ac i ni gael cynllunio sut i ddefnyddio ein hadnoddau. #doethidanaugwyllt | Every time we attend a wildfire, we may be diverted away from another emergency. We encourage landowners to work with their local Fire and Rescue Service to burn responsibly and enable us to plan our resources. #wildfirewise |

| | | |
|---|---|---|
| Fire Service_4 | Pan fyddwn yn ymateb i dân glaswellt sydd wedi mynd y tu hwnt i reolaeth, mae ein diffoddwyr tân yn cael eu peryglu yn ddiangen. Helpwch i atal tanau bwriadol.<br><br>#doethidanaugwyllt | Every time we attend a grass fire that's gone out of control, you put our firefighters needlessly at risk.<br>Help stop wildfires.<br>#wildfirewise |
| Fire Service_5 | Oeddech chi'n gwybod ei bod yn costio miloedd o bunnoedd i drethdalwr bob tro rydyn ni'n mynychu tân glaswellt? Helpwch i atal tanau bwriadol.<br><br>#doethidanaugwyllt | Did you know it costs you the taxpayer thousands of pounds every time we attend a wildfire?<br>Help stop deliberate fires.<br>#wildfirewise |

**Negeseuon Penodol am Iechyd y Cyhoedd**

| ENW'R DDELWEDD | CYMRAEG | SAESNEG |
|---|---|---|
| Public Health 1 | Mae mwg tân glaswellt yn gallu a chosi llid i'r llwybrau anadlu, croen a'r llygaid, gan achosi pesychu, brest dynn, diffyg anadl a phoen yn y frest. Helpwch i atal tanau bwriadol. #doethianau gwyllt | Wildfire smoke can irritate airways, the skin and eyes, causing coughing, wheezing, breathlessness and chest pain. Help stop deliberate fires. #wildfirewise |
| Public Health 2 | Gall mwg o danau glaswellt waethygu cyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, fel asthma. Helpwch i atal tanau bwriadol. #doethidanaugwyllt | Wildfire smoke can worsen existing conditions such as asthma. Help stop deliberate fires. #wildfirewise |
| Public Health 3 | Ydy'r mwg o danau glaswellt yn effeithio ar yr ardal lle rydych chi'n byw? Arhoswch dan do a chadw'r drysau a'r ffenestri ynghau. #doethidanaugwyllt | Is where you live affected by wildfire smoke? Stay indoors and keep doors and windows closed. #wildfirewise |
| Public Health 4 | Ydych chi'n teithio mewn ardaloedd y mae'r | Travelling in areas affected by wildfire smoke? Keep windows and air vents closed, and turn off air circulation. |

| | | |
|---|---|---|
| | mwg o danau glaswellt yn effeithio arnynt? Cadwch y ffenestri a'r fentiau aer ar gau, a diffoddwch unrhyw system sy'n cylchdroi'r aer. #doethidanaugwyllt | #wildfirewise |
| Public Health 5 | Os oes yn rhaid i chi fynd allan pan fydd tân glaswellt, ceisiwch osgoi neu gyfyngu ar yr amser a dreuliwch mewn ardaloedd y mae mwg neu lwch yn effeithio arnynt.<br><br>#doethidanaugwyllt | If you must go outdoors when there is a wildfire, avoid or limit your time spent in areas affected by smoke or ash.<br>#wildfirewise |
| Public Health 6 | Ydych chi'n poeni am symptomau a achosir gan fwg o danau glaswellt? Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu ewch i https://111.wales.nhs.uk/?locale=cy&term=A<br><br>#doethidanaugwyllt | Concerned about symptoms caused by wildfire smoke? Contact your GP or visit www.nhsdirect.wales.nhs.uk #wildfirewise |

## Pan fyddwch yn Bresennol mewn Digwyddiad

| ENW'R DDELWEDD | CYMRAEG | SAESNEG |
|---|---|---|
| Incident 1 | Rydym wedi ymateb i'r tân glaswellt yn {ENTER LOCATION} ac yn ei fonitro. Penderfynwyd ei adael i'w ddiffodd ei hun yn ddiogel. Diolch i chi am eich galwadau | We are in attendance and monitoring the grass fire at {ENTER LOCATION}. A decision has been taken to let it safely burn out. Thank you for your calls. |
| Incident 2 | Rydym yn ymateb i dân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Gallwn eich sicrhau bod y tân o dan reolaeth a bod Diffoddwyr Tân yn ei fonitro'n agos yn y fan a'r lle | We are in attendance at a grass fire in {ENTER LOCATION}. Rest assured the fire is under control and is being closely monitored by Firefighters at scene. |
| Incident 3 | Diolch i chi am eich galwadau mewn perthynas â thân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Rydym wedi ymateb iddo, ac mae'r tân yn cael ei fonitro'n agos | Thank you for your calls in relation to a grass fire at {ENTER LOCATION}. We have attended and the Fire is being closely monitored. |
| Incident 4 | Rydym yn cael nifer mawr o alwadau ynghylch tân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Diolch i chi am eich pryderon. Mae Diffoddwyr Tân yn bresennol ac yn monitro'r sefyllfa | We are experiencing a high volume of calls relating to a grass fire at {ENTER LOCATION}. Thank you for your concerns. Firefighters are in attendance and monitoring the incident. |

| | | |
|---|---|---|
| Incident 5 | Rydym yn wynebu nifer mawr o danau glaswellt bwriadol ledled ardal y Gwasanaeth. Rydym yn eich annog i aros gartref, achub bywydau, diogelu'r GIG. | We are experiencing high numbers of deliberate grass fires across the Service area. We urge you to Stay at home, save lives, protect the NHS. |

## Negeseuon o ddiolch

| ENW'R DDELWEDD | CYMRAEG | SAESNEG |
|---|---|---|
| Thank you 1 | DIOLCH I CHI – i bob aelod o'r cyhoedd sydd wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a Crimestoppers gyda gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gyfrifol am gynnau tanau anghyfreithlon yn eu cymuned. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i'n cynorthwyo i leihau effaith y tanau hyn a'r gost ddiangen y maent yn ei hachosi i'n gwasanaethau brys. Daliwch ati i ffonio a negeseua ac anfon negeseuon e-bost! Helpwch atal tanau bwriadol | THANK YOU - to all members of the public who have contacted the Fire and Rescue Service, the Police and Crimestoppers with information on those responsible for setting illegal fires in their community. This information is vital in assisting us to reduce the effect of these fires and the unnecessary drain these have on our emergency services. Keep the calls, emails and messages coming in! Help stop deliberate fires |
| Thank you 2 | DIOLCH I CHI – i bawb sydd wedi cysylltu â ni, yr Heddlu a Crimestoppers gyda gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gyfrifol am gynnau tanau anghyfreithlon yn eu cymuned. Helpwch atal tanau bwriadol | THANK YOU – to everyone that has contacted us, the Police and Crimestoppers with information on those responsible for setting illegal fires in their community. Help stop deliberate fires |